



2 Tai Capel Salem Ffordd Llanllechid, Llanllechid Freehold


Mae gan rai cartrefi hanes. Mae'r un yma wedi cael sawl bywyd.

Some homes have a history. This one has had several lives.

catra



Wedi'i adeiladu'n wreiddiol fel capel yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae Capel Salem wedi bod yn rhan o dirwedd Llanllechid ers cenedlaethau. Ers hynny, mae'r adeilad wedi'i drawsnewid yn ddau gartref unigryw, ond mae cymaint o gymeriad ei fywyd blaenorol yn dal yma – o'r gofod a'r uchder anhygoel, i'r trawstiau agored a'r ffenestri hynod sy'n gwneud Rhif 2 yn lle mor arbennig i fyw ynddo. Camwch drwy'r drws ffrynt ac rydych chi'n cael eich croesawu i gyntedd hardd, gyda chynllun 'split level' i'r cartref sy'n rhoi teimlad o chwillfrydedd iddo o'r cychwyn cyntaf. Mae'r tair ystafell wely ar y lefel is yma, ynghyd â dwy ystafell ymolchi, gan greu lle tawel ar wahân i brif ardaloedd byw'r cartref uwchben. Ewch i fyny'r grisiau ac rydych chi'n cyrraedd calon y cartref, lle mae'r 'landing' bron â'ch gwahodd i ddewis – chwith neu dde. I'r chwith mae'r cegin: modern ei steil, ond yn llawn o fanylion bach hynod sy'n eich atgoffa nad tŷ cyffredin oedd hwn erioed. Mae ffenestri'n ymddangos mewn mannau annisgwyl, gan dynnu'r golau i mewn a rhoi cipolwg dros y cae chwarae drws nesaf. Agorwch ffenestr ac efallai y clywch blant yn chwarae tu allan – atgof bach hyfryd, er bod cefn gwlad o'ch cwmpas, eich bod chi hefyd yng nghalon y gymuned. Trowch i'r dde, ac rydych chi'n camu i'r ystafell sy'n gwneud i chi stopio. Dyma'r ystafell fyddwch chi ddim eisiau ei gadael. Mae maint a graddfa'r gofod yn arbennig. Uwch eich pen, mae strwythur gwreiddiol y capel yn cael ei ddathlu drwy'r trawstiau pren enfawr, tra bod ffenestri Velux a'r agoriadau llawn cymeriad yn gadael golau i lifo i mewn drwy gydol y dydd. O dan draed, mae'r llawr 'parquet' yn dod â chynhesrwydd a gwead i'r gofod mawr, tra bod y ffenestri'n edrych allan dros y caeau a chefn gwlad o'ch blaen. Er ei faint a'i uchder, mae rhywbeth rhyfeddol o glyd am yr ystafell yma. Mae digon o le i fwyta, darllen, gweithio, croesawu ffrindiau neu ymlacio – neu'n syml i swatio ar y sofa a mwynhau'r golau'n newid a'r olygfa tu allan. Ac yna mae'r lleoliad. Mae Capel Salem yn eistedd ar hyd lôn wledig dawel, gyda chefn gwlad o'i gwmpas, ond mae siop gyfleus Llanllechid lai na munud i fwrdd ar droed. Mae'r cae chwarae drws nesaf, ac mae'r pentref a'i gymuned Gymraeg ar garreg y drws. Tu allan, mae'r gerddi'n fychan ond yn hynod ddefnyddiol. O flaen y tŷ mae gardd hawdd ei chynnal sy'n dal golau'r nos a'r machlud, tra bod yr iard fechan yn y cefn yn mwynhau haul y bore ac â digon o botensial i greu gardd breifat hyfryd. Mae lle parcio penodol hefyd gyda'r eiddo, ochr yn ochr â'r cartref drws nesaf. Mae rhywbeth arbennig am y rhan fach yma o Llanllechid. Mae'n teimlo'n wledig heb fod yn ynysig; yn dawel, ond eto'n gysylltiedig. Mae cefn gwlad o'ch cwmpas, tra bod cyfleusterau bob dydd a'r ymdeimlad o gymuned sy'n dod gyda bywyd pentref ond eiliadau i fwrdd. Mae Llanllechid ei hun yn gymuned Gymraeg fywiog, yn llawn hanes ac wedi'i hamgylchynu gan dirwedd Dyffryn Ogwen. Mae'n lle cyffrous iawn i'w alw'n gartref.



Originally built as a chapel in the nineteenth century, Capel Salem has been part of the Llanllechid landscape for generations. Since then, the building has been transformed into two unique homes, but so much of the character of its former life remains – from the incredible sense of space and height to the exposed beams and unusual windows that make No. 2 such a special place to live. Step through the front door and you're welcomed into a beautiful entrance hall, with the home's split-level layout immediately giving it a sense of intrigue. All three bedrooms sit on this lower level, alongside two bathrooms, creating a quiet space away from the main living areas above. Climb the stairs and you arrive at the heart of the home, where the landing almost invites you to choose – left or right. To the left is the kitchen: modern in style, but filled with quirky little details that remind you this was never an ordinary house. Windows appear in unexpected places, drawing in the light and offering glimpses across the neighbouring playing field. Open a window and you might hear children playing outside – a lovely little reminder that, despite having countryside around you, you're also right at the heart of the community. Turn to the right and you step into the room that makes you stop. This is the room you won't want to leave. The sheer scale of the space is something special. High above, the original structure of the chapel is celebrated through enormous exposed timber beams, while Velux windows and characterful openings allow light to pour in throughout the day. Underfoot, parquet flooring brings warmth and texture to the generous space, while the windows look out across the fields and countryside in front. Despite its size and height, there's something wonderfully cosy about this room. There's plenty of space to eat, read, work, entertain friends or simply relax – or just curl up on the sofa and enjoy the changing light and the view outside. And then there's the location. Capel Salem sits along a quiet country lane, with countryside around it, yet Llanllechid's convenience store is less than a minute away on foot. The playing field is directly next door, while the village and its Welsh-speaking community are right on the doorstep. Outside, the gardens are small but incredibly useful. To the front is an easy-to-maintain garden that catches the evening light and sunsets, while the small rear yard enjoys the morning sun and has plenty of potential to become a lovely private garden. The property also comes with allocated parking alongside the neighbouring home. There's something particularly special about this little pocket of Llanllechid. It feels rural without feeling isolated; peaceful, yet connected.

Band Treth Cyngor – E

EPC – C (wedi ei insiwleiddio'n dda)

Ffenestri Haen Dwbl

Gwres Canolog Nwy

Lle i 2x gar i barcio

Bydd TTT yn daladwy ar yr eiddo hon

Tenure: Freehold

Council Tax Band – E

EPC – C (Well insulated)

Double-glazed windows

Gas central heating

Parking for two cars

LTT is payable on this property

- Trawsnewidiad capel unigryw llawn cymeriad a nodweddion gwreiddiol / Unique chapel conversion full of character and original features
- Tair ystafell wely, gan gynnwys prif ystafell wely gydag en-suite / Three bedrooms, including a spacious primary bedroom with en-suite
- Ystafell fyw drawiadol gyda nenfydau uchel a thrawstiau pren agored / Impressive living room with high ceilings and exposed timber beams

and exposed timber beams

- Ffenestr eglwys draddodiadol, ffenestri Velux a digonedd o olau naturiol / *Traditional church window, Velux windows and an abundance of natural light*
- Llawr parquet gyda gwres o dan y llawr yn yr ystafell fyw / *Parquet flooring with underfloor heating in the living room*
- Cegin fawr, olau gyda digon o le i fwyta a chroesawu ffrindiau / *Large, light-filled kitchen with plenty of space for dining and entertaining*
- Golygfeydd hyfryd dros y caeau a chefn gwlad / *Beautiful views across neighbouring fields and countryside*
- Pocedi hyfryd o le tu allan i'r blaen a'r cefn / *Charming pockets of outdoor space to the front and rear*
- Lleoliad gwledig yng nghalon cymuned Gymraeg Llanllechid, gyda pharcio i ddau gar / *Rural setting at the heart of the Welsh-speaking Llanllechid community, with parking for two cars*
- Cynllun split-level unigryw, gyda'r ystafelloedd gwely ar wahân i'r prif ardaloedd byw / *Unique split-level layout, with the bedrooms separate from the main living areas*



Y Cyntedd / Entrance Hall 14' 7" x 7' 6" (4.45m x 2.28m)



Mae'r drws traddodiadol yn agor i gyntedd eang a chroesawgar – y lle perffaith i dynnu'ch esgidiau ar ôl mynd am dro a gwisgo'ch sliperi cyn ymlacio o flaen y tân. O'r fan hon, mae mynediad i'r tair ystafell wely, gyda'r grisiau'n eich arwain i fyny at brif ofod byw'r cartref.



The traditional front door opens into a spacious and welcoming entrance hall – the perfect place to kick off your boots after a walk and slip into your slippers before settling down in front of the fire. All three bedrooms are accessed from here, while the staircase leads you up towards the main living spaces.

Ystafell Molchi / Bathroom 10' 10" x 6' 2" (3.31m x 1.87m)

Y brif ystafell ymolchi i'r teulu, wedi'i lleoli'n gyfleus ar y llawr isaf ger yr ystafelloedd gwely. Mae'r ystafell fodern wedi'i theilsio drwyddi draw, gyda bath yn ogystal â chawod.

The main family bathroom sits conveniently on the lower level alongside the bedrooms. Modern and fully tiled throughout, there's a bath as well as a generous walk-in shower.





Ystafell Wely 1 / Bedroom 1

14' 11" x 9' 11" (4.54m x 3.02m)

Ystafell ddwbl fawr gyda nenfwd annisgwyl o uchel, sy'n rhoi teimlad hyfryd o le. O'r ffenestr uchel, mae'r olygfa o wal gerrig a'r coed tu hwnt yn rhoi nod bach i hanes yr adeilad.

A large double bedroom with unexpectedly high ceilings, giving the room a wonderful sense of space. Through the high-set window, a stone wall and trees beyond offer a subtle nod to the building's history.

Ystafell Wely 2 / Bedroom 2

9' 5" x 9' 4" (2.88m x 2.85m)

Y lleiaf o'r tair ystafell wely, ond yn ystafell o faint gwych i blentyn, neu'n lle perffaith i greu swyddfa gartref dawel.

The smallest of the three bedrooms, but a great-sized room for a child, or equally a lovely space to create a quiet home office.

Ystafell Wely 3 / Bedroom 3 14' 11" x 11' 0" (4.55m x 3.35m)

Ystafell ddwbl fawr, gyda nenfydau uchel a dwy ffenestr wedi'u gosod yn uchel – nod arall i hanes yr adeilad. Mae'r ffenestri'n edrych tuag at flaen y cartref, gan ddod â golau'r nos i mewn a chipolwg o'r coed a natur y tu allan. Mae gan yr ystafell hefyd ei hystafell ymolchi en-suite ei hun.


A large and spacious double bedroom with high ceilings and two high-set windows – another nod to the building's history. Facing the front of the home, they bring in the evening light, with glimpses of trees and nature outside. The room also benefits from its own en-suite bathroom.

En-Suite 5' 1" x 6' 0" (1.56m x 1.83m)

Ystafell en-suite o faint da, gyda toiled, sinc a bidet. Mae dwy ffenestr yn dod â digonedd o olau naturiol i mewn, ac er y byddai'r ystafell yn elwa o ychydig o ddiweddarau, mae'r gofod yma'n cynnig digon o botensial.

A great-sized en-suite, currently arranged as a wet room with a toilet, sink and bidet. Two windows bring in plenty of natural light, and while the room would benefit from some updating, there's plenty of potential here.





Cegin / Kitchen

13' 2" x 14' 9" (4.01m x 4.50m)

Cegin fawr, olau gyda digonedd o le storio ac arwyneb coginio, yn ogystal â lle hael ar gyfer bwrdd bwyta. Er y byddai'n elwa o ychydig o foderneiddio, mae'r ffenestri hynod, y golau a'r gofod yn rhoi cymaint o gymeriad i'r ystafell – lle gwych i groesawu ffrindiau, neu i eistedd gyda brecwast a mwynhau'r bore. Mae nifer o offer integredig yma hefyd.

A large, light-filled kitchen with an abundance of cupboard and worktop space, as well as plenty of room for a dining table. While it would benefit from some light modernisation, the quirky windows, natural light and generous space give this room so much character – equally lovely for entertaining friends or simply sitting down to enjoy breakfast in the morning. There are also a number of integrated appliances.

Ystafell Fyw / Living Room

20' 4" x 14' 8" (6.20m x 4.48m)

Dyma galon y cartref – ystafell drawiadol gyda nenfydau uchel, trawstiau pren agored a llawr parquet gyda gwres o dan y llawr. Mae'r ffenestr eglwys draddodiadol, ynghyd â'r ffenestri eraill a'r Velux, yn llenwi'r gofod â golau, gyda'r ystafell yn arbennig o hyfryd wrth i haul y prynhawn lifo i mewn.

The heart of the home – an impressive room with high ceilings, exposed timber beams and parquet flooring with underfloor heating. The traditional church window, together with the other windows and Veluxes, fills the space with natural light, becoming particularly lovely as the afternoon sun streams in.




Top y Grisïau / Landing

7' 11" x 14' 8" (2.42m x 4.48m)

Lle braf a defnyddiol ar ben y grisïau, sy'n cysylltu'r prif ardaloedd byw ar y llawr yma. Mae cwpwrdd yn cuddio'r boiler a'r 'lectrics, ac yn y nenfwd mae ysgol sy'n arwain i fyny at ofod atig gwyach uwchben.

A lovely and useful space at the top of the stairs, connecting the main living areas on this level. A cupboard neatly houses the boiler and fuse box, while a ceiling ladder provides access to a fantastic attic space above.





GARDEN

Un o bocedi bach hyfryd y cartref o le tu allan. Mae'r ardd flaen yn fach a swynol, gyda digon o le i dyfu blodau a gosod bwrdd a chadeiriau i fwyta tu allan. Mae'n lle perffaith i fwynhau machlud yr haul, gwydraid o win a sgwrs gyda rhywun sy'n pasio, gyda golygfeydd hyfryd dros y caeau lle mae'r ceffylau'n pori. One of the home's lovely little pockets of outdoor space. The front garden is small and charming, with just enough room to grow flowers and have a table and chairs for outdoor dining. It's a perfect spot for watching the sunset with a glass of wine, chatting to passers-by and enjoying the beautiful outlook across the fields where the horses graze.

REAR GARDEN



Y tu ôl i'r cartref mae iard fechan, breifat sy'n dal digon o haul yn y bore. Ar hyn o bryd mae sied yma sy'n cynnig lle storio defnyddiol, ond wrth dynnu y sied, byddai'n agor y gofod ac yn creu iard gefn hyfryd – lle bach preifat i eistedd allan a mwynhau'r haul. To the rear of the home is a small, private yard that enjoys plenty of sunshine. There's currently a shed providing useful storage, but removing it would open up the space and create a lovely private little garden – a peaceful spot to sit outside and enjoy the sun.





Mae Llanllechid yn bentref sydd â'i wreiddiau'n ddwfn. Fel llawer o Ddyffryn Ogwen, mae ei hanes wedi'i glymu'n agos â'r diwydiant llechi a'r cenedlaethau o deuluoedd fu'n byw ac yn gweithio yn y dyffryn. Mae'r hanes hwnnw wedi helpu i lunio'r gymuned glòs, falch a Chymreig sydd yma hyd heddiw. Ac mae hon yn gymuned sy'n fyw iawn. Mae ysgol gynradd leol, parciau i blant a digwyddiadau cymunedol i bobl o bob oed, gyda'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd. Mae ysgol uwchradd hefyd ond ychydig funudau i ffwrdd yn y car, gan wneud hwn yn lleoliad arbennig o gyfleus i deuluoedd. Gerllaw, mae Gerlan a Bethesda yn rhannu'r un ymdeimlad cryf o gymuned, pob un â'i gymeriad ei hun ond oll wedi'u cysylltu gan dirwedd a hanes Dyffryn Ogwen. Mae siopau, caffis a chyfleusterau bob dydd o fewn cyrraedd hawdd, tra bod caeau, afonydd, llwybrau cerdded a chefn gwlad agored byth yn bell. Mae rhywbeth arbennig am y rhan yma o'r dyffryn. Mae'n teimlo'n wledig heb fod yn ynysig; yn heddychlon, ond eto'n gysylltiedig. Mae'n lle i blant dyfu i fyny gyda natur o'u cwmpas, lle mae cymdogion yn dal i adnabod ei gilydd, a lle nad rhywbeth o'r gorffennol yw cymuned – mae'n fyw ac yn gryf iawn yma heddiw. Rhwng cefn gwlad, cyfleustra a chymuned, mae gan Llanllechid bopeth.

Llanllechid is a village with deep roots. Like much of Dyffryn Ogwen, its story is closely tied to the slate industry and the generations of families who lived and worked within the valley. That history helped shape the close-knit, proudly Welsh community that remains here today. And this is very much a living community. There is a local primary school, children's play areas and community events bringing together people of all ages, with the Welsh language very much part of everyday life. A secondary school is also only a few minutes away by car, making this a particularly convenient place for family life. Nearby Gerlan and Bethesda share that same strong sense of community, each with their own character but all connected by the landscape and history of Dyffryn Ogwen. Local shops, cafés and everyday amenities are within easy reach, while fields, rivers, walking routes and open countryside are never far away. There's something particularly special about this part of the valley. It feels rural without feeling isolated; peaceful, yet connected. It's a place where children can grow up surrounded by nature, where neighbours still know one another, and where community isn't something from the past – it's very much alive. For countryside, convenience and community, Llanllechid really does have it all.









2 Capel Salem

